Dinas a Sir Abertawe

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Archifau Gorllewin Morgannwg

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Gwener, 15 Rhagfyr 2023 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Louise Fleet (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

**Cynghorwyr - Abertawe**

| | | |
|---|---|---|
| P M Black | L R Jones | E J King |
| R V Smith | | |

**Cynghorwyr - Castell-nedd Port Talbot**

| | | |
|---|---|---|
| W Carpenter | R Mizen | C Phillips |
| S Renkes | | |

**Sefydliadau Cysylltiedig**

| | |
|---|---|
| Louise Miskell | Prifysgol Abertawe |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Kim Collis | Archifydd Sirol |
| Becky Jones | Rheolwr Cyfleusterau |
| Tracey McNulty | Pennaeth y Gwasanaethau Diwylliannol |
| Chris Saunders | Pennaeth Diwylliant, Hamdden, Treftadaeth a Thwristiaeth - CNPT |

**Hefyd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Andrew Gardner | Kier Construction |
| Luc Blackmore | Kier Construction |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

C Davies, A Dulley a J Watkins

## 11 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan y ddau awdurdod, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 12 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion cyfarfod Pwyllgor Archifau Gorllewin Morgannwg a gynhaliwyd ar 15 Medi 2023 fel cofnod cywir.

**13 Adleoli'r Archifau - Diweddariad gan y Tîm Dylunio.**

Rhoddodd Andrew Gardner a Tracey McNulty ddiweddariad llafar i'r Pwyllgor ar y sefyllfa bresennol mewn perthynas â'r cyfleuster newydd, Y Storfa, sy'n cael ei ddatblygu yng nghanol dinas Abertawe.

Y nod yw y bydd y cyfleuster newydd yn agor yng ngwanwyn 2025 ac mae'r contractwyr ar y safle ar hyn o bryd yn ymgymryd â cham tynnu hen gyfarpar/dymchwel y prosiect.

Amlinellwyd bod Chris Woods o'r Gwasanaeth Cadwraeth Cenedlaethol wedi bod yn rhan o bob cam o'r gwaith i ddatblygu a dylunio agweddau archif yr adeilad, ac mae wedi rhoi cyngor arbenigol ar amrywiaeth eang o bynciau gan gynnwys diogelwch ffisegol a thrydanol, tân ac amodau amgylcheddol.

Manylwyd ar y materion a'r amserlenni ynghylch y nod o gyflawni'r safonau BSI a'r nod o ail-achredu'r gwasanaeth. Byddai staff yn derbyn yr hyfforddiant priodol i oruchwylio gweithrediad effeithlon o'r ystafell ddiogel.

Esboniwyd ac amlinellwyd y newidiadau a chynllun diwygiedig yr ystafell ddiogel, a'r trefniadau rheoli arfaethedig mewn perthynas â'r materion ynghylch monitro'r ystafell ddiogel yn fanwl.

Gofynnodd aelodau'r pwyllgor gwestiynau amrywiol ynghylch y diweddariad a'r cynigion ar gyfer yr adeilad i'r swyddogion, a ymatebodd yn briodol.

Byddai ymweliad safle â'r cyfleuster yn cael ei drefnu ar gyfer holl aelodau'r pwyllgor maes o law.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am y diweddariad ac amlinellwyd y byddai ymweliad safle'n cael ei groesawu.

**14 Adroddiad Archifydd y Sir.**

Cyflwynodd yr Archifydd Sirol adroddiad a oedd yn amlinellu gwaith y Gwasanaeth Archifau ar y Cyd yn ystod y cyfnod rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2023.

<u>Adleoli'r Archifau i Y Storfa - Hwb Canol y Ddinas a Gwaith Prosiect Arall</u>

Mewn perthynas â'r diweddariad llafar a ddarparwyd yn gynharach yn y cyfarfod, darparodd yr Archifydd Sirol ddiweddariad ar y cynlluniau diwygiedig ar gyfer yr ystafell ddiogel, yn dilyn cytundeb i gael gwared ar y lifft dogfennau.

Dangoswyd y cynlluniau diwygiedig i'r pwyllgor.

Amlinellodd ei fod yn credu bod y cynllun diwygiedig newydd yn welliant gwych ar y fersiwn flaenorol, a'i fod bellach yn fwy o ran maint ac yn cynnwys mwy o gyfrifiaduron, ardal storio cotiau/bagiau ac ystafell ar gyfer gwneud gwerthiannau bach.

Manylodd ar y diwygiadau a wnaed ynghylch ail-ddylunio’r ystafell ddiogel ac mewn perthynas â'r defnydd o'r lifft staff rhwng yr ystafell ymchwil a'r ystafell ddiogel. Nododd fod y trefniadau rheoli wedi’u cytuno felly staff yr archifau yn unig fyddai yn y lifft wrth gludo dogfennau i'r ystafell ddiogel ac oddi yno.

Cytunodd Tracey McNulty fod y dyluniad newydd yn welliant ac y dylai ychwanegu gwerth at Y Storfa. Dylai'r ystafell ddiogel newydd, mewn cydweithrediad â'r cyfleusterau eraill yn yr adeilad megis y llyfrgell newydd, cyngor ar bopeth, ystafelloedd cyfarfod etc. gynyddu nifer yr ymwelwyr ac amser 'sefyll'.

Amlinellodd yr Archifydd Sirol hefyd fod y Gwasanaeth Cadwraeth Cenedlaethol wedi darparu hyfforddiant i staff mewn perthynas â'r casgliadau ffotograffiaeth a ddelir gan y gwasanaeth.

Y Defnydd o'r Gwasanaeth

Adroddodd am y ffigurau sy'n ymwneud â'r defnydd o'r gwasanaeth drwy ei lwyfannau amrywiol yn bersonol ac ar-lein.

Allgymorth a Gweithgarwch Addysgol

Adroddodd fod dwy ysgol wedi derbyn sesiynau yn ystod y chwarter a bod sesiynau hefyd wedi'u cynnal ar gyfer myfyrwyr Prifysgol Abertawe a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.

Mae staff hefyd wedi darparu sgyrsiau i dri grŵp a sefydliadau yn ystod y chwarter.

Mae wedi bod i amrywiaeth o ddigwyddiadau gwahanol yn ystod y chwarter ac amlinellwyd bod y gwasanaeth yn parhau i gynnal sesiwn fisol ar gyfer Cangen Abertawe o Gymdeithas Hanes Teulu Morgannwg.

Staff

Adroddodd fod yr hyfforddai archifau newydd, Ffion Kidwell, wedi dechrau ar 5 Rhagfyr. Mae llenwi'r swydd hon wedi galluogi'r gwasanaeth i barhau i agor deuddydd yr wythnos yn Sefydliad y Mecanyddion yng Nghastell-nedd ochr yn ochr â gwirfoddolwr o Gymdeithas Hynafiaethwyr Castell-nedd.

Cyfarfodydd a Hyfforddiant Proffesiynol

Rhestrodd y gwahanol grwpiau proffesiynol a chyfarfodydd yr oedd wedi bod yn bresennol ynddynt yn ystod y chwarter.

Mynediad at Gasgliadau’r Archifau

Manylodd yr Archifydd Sirol ar yr archifau amrywiol a dderbyniwyd gan y Gwasanaeth yn ystod y chwarter.

Daeth y cyfarfod I ben am 11.07 am

**Cadeirydd**